1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi
2. sut i gefnogi **eraill** i sefydlu a chynnal y lleoliad gwaith chwarae i gwrdd ag anghenion chwarae plant a phobl ifanc
3. cyfrifoldebau rheoli risg
4. y gwahaniaethau rhwng asesiadau risg ffurfiol ac asesiadau risg-manteision dynamig
5. sut i wneud, cofnodi ac adlewyrchu ar asesiadau risg-manteision dynamig
6. damcaniaethau a modelau rheoli risg ar gyfer y lleoliad gwaith chwarae
7. pwysigrwydd arsylwi'r chwarae yn y lleoliad gwaith chwarae
8. pwysigrwydd sicrhau eich bod yn adlewyrchu ar eich arsylwi er mwyn gwella'ch gwaith chwarae
9. sut i gadw cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'ch sefydliad a phwysigrwydd sicrhau eu bod yn gyflawn, yn ddealladwy ac yn gyfredol
10. pwysigrwydd amrywiaeth a chynnwys pawb yn y lleoliad gwaith chwarae
11. y modelau a'r arferion da presennol sy'n ymwneud â chynhwysiant
12. y modelau cymdeithasol a meddygol o anabledd a'r gwahaniaethau rhyngddyn nhw
13. ffyrdd o adnabod a goresgyn y pethau hynny sy'n **rhwystro pobl rhag cymryd rhan** yn y lleoliad gwaith chwarae
14. sut i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant drwy eich geiriau, gweithredoedd ac ymddygiad yn y lleoliad gwaith chwarae
15. sut i hyrwyddo'r lleoliad gwaith chwarae i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr sydd o bosib yn wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan
16. y mathau o gefnogaeth fydd o bosib ei hangen ar blant a phobl ifanc er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r lleoliad gwaith chwarae
17. polisïau a gweithdrefnau'ch sefydliad o ran darparu **gwybodaeth** i bobl ac asiantaethau awdurdodedig a'r math o wybodaeth y gellir fod angen ei darparu
18. pwysigrwydd cadw cofnodion yn gyfrinachol yn unol â pholisïau a

## Cyfrannu at redeg lleoliad gwaith chwarae

---

gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol a'r math o wybodaeth y gellir bod angen ei darparu

19. ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i addasu a newid y lleoliad gwaith chwarae

20. ffyrdd o feithrin diwylliant ymhlith y staff, y plant a'r bobl ifanc i gael pawb yn rhan o'r broses o greu mannau chwarae newydd, cyfoethocach fel rhan o'r lleoliad gwaith chwarae

### **Cyfrannu at gynnal a chadw y lleoliad gwaith chwarae**

21. ffyrdd o wneud yn siŵr fod yna adnoddau y mae modd i bob plentyn a pherson ifanc eu defnyddio

22. ffyrdd o sicrhau fod y lleoliad gwaith chwarae yn hwylus ac yn addas i bawb

23. polisïau a gweithdrefnau'ch sefydliad o ran gwirio'r safle

24. sut i wneud yn siŵr fod gwaith cynnal a chadw yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol

25. polisïau a gweithdrefnau'ch sefydliad o ran gwirio a chynnal a chadw offer

26. pwysigrwydd sicrhau fod yna ddiwylliant o newid ac amrywiaeth yn y lleoliad gwaith chwarae ac o fewn y tîm i gwrdd ag anghenion pob plentyn a pherson ifanc

27. pwysigrwydd sicrhau fod y lleoliad gwaith chwarae yn cefnogi lles pob plentyn a pherson ifanc

28. sut i ymwneud gyda phlant a phobl ifanc i greu mannau chwarae

29. yr angen i sicrhau bod modd darparu'r cyfleoedd chwarae y gofynnir amdany'n nhw

### **Cyfrannu at sicrhau fod y lleoliad gwaith chwarae yn lle iach a diogel**

30. eich cyfrifoldeb o ran iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc

31. y polisïau a'r gweithdrefnau statudol, rheolaethol a sefydliadol ar gyfer diogelwch plant, pobl ifanc ac **eraill** yn eich lleoliad gwaith chwarae



32. cytundebau cyfrinachedd gyda rhieni a gofalwyr
33. pam ei bod hi'n bwysig fod pawb sy'n defnyddio'r lleoliad gwaith chwarae – yn blant, bobl ifanc a staff – yn cael gwybodaeth ynglŷn â gweithdrefnau iechyd a diogelwch
34. camau datblygu plant a phobl ifanc a goblygiadau hyn ar drefniadau iechyd a diogelwch
35. pam ei bod hi'n bwysig fod plant a phobl ifanc yn rheoli risg drostyn nhw eu hunain yn unol â'u hanghenion, dymuniadau a lefel eu datblygiad, a'u bod yn ymwybodol o'u diogelwch eu hunain a diogelwch **pobl eraill**
36. ffyrdd o adolygu a diwygio polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch eich sefydliad
37. y trefniadau o ran damweiniau, anafiadau, salwch ac achosion eraill o **argyfwng**, a sut i weithredu'r rhain
38. gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol o ran cadw a rhoi meddyginiaethau
39. polisïau a gweithdrefnau sefydliadol a chyfreithiol yn ymwneud â chodi a chario a'r peryglon sy'n gysylltiedig â hynny
40. cynnwys blwch cymorth cyntaf
41. arwyddion a symptomau afiechydon ac alergeddau sy'n gyffredin ymysg plant, a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad o ran ymateb i'r rhain
42. **gwirio diogelwch** - tu mewn a thu allan – cyn, yn ystod ac ar ôl gweithgareddau gwaith
43. **arferion hylendid da**, i osgoi'r perygl o drosglwyddo haint

SKAPW67

Cyfrannu at redeg lleoliad gwaith chwarae



---

**Cwmpas/Ystod**

**Cwmpas/Ystod  
cysylltiedig â meini  
prawf perfformiad**

**Eraill**

1. staff
2. ymwelwyr
3. rhieni a / neu ofalwyr

**Gwybodaeth** *(o leiaf 4 allan o 6)*

1. cefndir
2. anghenion dietegol
3. alergeddau
4. gofynion gofal personol
5. trefniadau cyrraedd a gadael
6. cofnodion y sefydliad

Cyfrannu at redeg lleoliad gwaith chwarae

---

**Cwmpas/Ystod  
cysylltiedig â  
gwybodaeth a  
dealltwriaeth**

**Eraill**

1. staff
2. ymwelwyr
3. rhieni a / neu ofalwyr

**Rhwystrau rhag cymryd rhan**

1. agweddau
2. y lleoliad
3. sefydliadol

**Gwybodaeth**

1. cefndir
2. anghenion dietegol
3. alergeddau
4. gofynion gofal personol
5. trefniadau cyrraedd a gadael
6. cofnodion y sefydliad

**Achosion o argyfwng**

1. tân
2. plant ar goll
3. gorfod gadael y lleoliad

**Gwirio diogelwch**

1. cyfleusterau ac offer
2. y tai bach a'r manau ymolchi
3. sut mae plant a phobl ifanc yn symud a beth maen nhw'n ei chwarae

**Arferion hylendid da**

1. systemau priodol i gael gwared ar wahanol fathau o wastraff
2. trin bwyd
3. trin hylifau corfforol
4. afiechydon heintus ac afiechydon mae modd eu trosglwyddo drwy'r gwaed

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

### Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chwarae a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfoll a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.
4. Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.
5. Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.
6. Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.

7. Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae a hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.

8. Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae. Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwysu'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu'r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwyllo'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

## Geirfa

### **Rhwystrau rhag cymryd rhan**

Pethau sy'n rhwystro plant rhag chwarae, neu'n eu hannog i beidio â gwneud. Fe all y rhain gynnwys rhwystrau materol i blant a phobl ifanc, ond fe allan nhw hefyd gynnwys cylch ehangach o faterion fel rhagfarn, diffyg delweddu cadarnhaol, diffyg gweithgareddau ac anghenion sy'n rhan o ddiwylliant rhywun, rhwystrau ieithyddol a sawl ffactor arall sy'n effeithio ar wahanol gymunedau o bobl.

### **Anghenion chwarae**

Beth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc er mwyn iddyn nhw allu chwarae, ond na allan nhw eu cael o hyd am amryw o resymau; er enghraifft, diffyg mynediad, oedolion gor-amddiffynol, diffyg manau awyr agored ac ati.

### **Darpariaeth chwarae**

Mannau wedi eu creu gan oedolion ble mae modd i blant a phobl ifanc chwarae.

### **Man chwarae**

Man chwarae sy'n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn faterol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â'r byd seibr.

### **Lleoliad gwaith chwarae**

Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

### **Staff**

Mae hyn yn cynnwys y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, rydych chi'n gyfrifol amdany'n nhw, cyflogedig a neu wirfoddol, myfyrwyr neu dan hyfforddiant.



## Cyfrannu at redeg lleoliad gwaith chwarae

<b>Datblygwyd gan</b>	SkillsActive
<b>Fersiwn rhif</b>	1
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	Chwefror 2016
<b>Indicative Review Date</b>	Ebrill 2021
<b>Dilysrwydd</b>	ArHynOBryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	SkillsActive
<b>RCU gwreiddiol</b>	Newydd
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus; Lles a Datblygiad Plentyn; Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol; Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd
<b>Cyfres/Set</b>	Gwaith Chwarae
<b>Geiriau Allweddol</b>	cyfrannu; lleoliad gwaith chwarae; cynnal a chadw; datblygu; iechyd a diogelwch

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â chydymffurfio â gofynion y gyfraith ac â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn rhoi sylw i'r cyfrifoldeb o gynnal a gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn – yn eich lleoliad gwaith chwarae a chyda'r staff rydych chi'n gweithio gyda nhw ac efallai â pheth cyfrifoldeb drostyn nhw.

### Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:

1. cyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc
2. gweithredu polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad a helpu staff i fod yn fwy ymwybodol ohonyn nhw.

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae ac sy'n gyfrifol yn bennaf am roi cyfleoedd i blant chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Mae'r safon ar gyfer staff sydd â pheth cyfrifoldeb dros y lleoliad gwaith chwarae ac eraill, ac sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gefnogi chwarae.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

### Cyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisiau a gweithdrefnau yn ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc

1. ymchwilio i **hawliau** plant a phobl ifanc
2. gwerthuso **polisiau a gweithdrefnau** sydd eisoes yn bodoli er mwyn sicrhau eich bod yn cwrdd â **hawliau** plant a phobl ifanc yn eich lleoliad gwaith chwarae
3. trafod gyda phlant a phobl ifanc y ffyrdd y gall y lleoliad gwaith chwarae gwrdd â'u **hawliau** orau
4. datblygu cytundebau grŵp gyda phlant a phobl ifanc ynglŷn â ffyrdd o gwrdd â'u **hawliau** a'u hanghenion
5. trafod gyda **staff** a chytuno ar **bolisiau a gweithdrefnau** sy'n seiliedig ar anghenion a hawliau plant a phobl ifanc
6. rhoi gwybodaeth ac argymhellion i **staff** ynglŷn â'r **polisiau a'r gweithdrefnau** hyn

### Gweithredu polisiau a gweithdrefnau eich sefydliad a helpu staff i fod yn fwy ymwybodol ohonyn nhw

7. gwirio'n rheolaidd fod **staff** yn ymwybodol o'r **polisiau a'r gweithdrefnau**
8. cyfrannu at greu diwylliant ymysg **staff** ac oedolion eraill perthnasol sy'n rhoi pwys ar amrywiaeth ac ar geisio cynnwys pawb
9. arsylwi, casglu adborth a gwerthuso pa mor dda mae'r **polisiau a'r gweithdrefnau** yn gweithio yn eich lleoliad gwaith chwarae

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod* **Cyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc**  
*a deall:*

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi
2. sut i ymchwilio i **hawliau** plant a phobl ifanc ac adnabod y goblygiadau i'ch lleoliad gwaith chwarae
3. gofynion sylfaenol deddfwriaeth genedlaethol a rhanbarthol yn amddiffyn hawl plant i chwarae
4. gofynion sylfaenol deddfwriaeth genedlaethol ynglŷn â **hawliau** plant a phobl ifanc
5. gofynion sylfaenol y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chyfleoedd Cyfartal a Gwahaniaethu ar Sail Anabled
6. canllawiau, **polisïau a gweithdrefnau** lleol a sut maen nhw'n berthnasol i'ch lleoliad gwaith chwarae
7. camau sylfaenol datblygiad plentyn a sut mae hyn yn effeithio ar **hawliau** ac anghenion plant a phobl ifanc yng nghyd-destun gwaith chwarae
8. pam ei bod hi'n bwysig fod polisïau a gweithdrefnau gan y lleoliad gwaith chwarae sy'n adlewyrchu **hawliau** plant a phobl ifanc
9. pwysigrwydd trafod gyda phlant a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau, a sut i wneud hyn yn effeithiol
10. pwysigrwydd amrywiaeth a chynhwysiant yn y lleoliad gwaith chwarae
11. sut i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant mewn gair, gweithred ac ymddygiad yn eich lleoliad gwaith chwarae
12. pam ei bod hi'n bwysig hyrwyddo'r lleoliad gwaith chwarae i blant a phobl ifanc sydd o bosib yn wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan
13. y mathau o gefnogaeth fydd o bosib eu hangen ar blant a phobl ifanc i wneud y defnydd gorau o'r lleoliad gwaith chwarae
14. damcaniaethau ac arferion da cyfredol yn ymwneud â chynhwysiant
15. sut i hyrwyddo ac eiriol dros **hawliau** plant a phobl ifanc yn eich lleoliad gwaith chwarae

**Gweithredu polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad a helpu staff i fod yn fwy ymwybodol ohonyn nhw**

16. sut i helpu rhoi **polisïau a gweithdrefnau** eich sefydliad ar waith yn eich lleoliad gwaith chwarae
17. ffyrdd o gefnogi staff i ddeall y **polisïau a'r gweithdrefnau** a pham ei bod hi'n bwysig cwblhau hyn yn rheolaidd
18. sut i sicrhau fod **staff** yn cwrdd â **hawliau** plant a phobl ifanc yn eich lleoliad gwaith chwarae
19. materion yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant a sut a phryd i gefnogi **staff**
20. sut i gasglu adborth a gwerthuso sut mae **polisïau a gweithdrefnau** yn gweithio yn eich lleoliad gwaith chwarae

**Cwmpas/Ystod  
cysylltiedig â meini  
prawf perfformiad****Hawliau** *(o leiaf 4 allan o 6)*

1. mewn perthynas â chwarae a gweithgareddau cymdeithasol
2. mewn perthynas â gofal a diogelwch
3. mewn perthynas â lles emosiynol
4. mewn perthynas â chynhwysiant
5. mewn perthynas â chydabod hunaniaeth
6. mewn perthynas â gwybodaeth

**Polisïau a gweithdrefnau** *(o leiaf 4 allan o 7)*

1. chwarae a gweithgareddau cymdeithasol
2. gweithio mewn ffordd gynhwysol sydd ddim yn gwahaniaethu
3. amddiffyn plant a bwlio
4. iechyd a diogelwch
5. ymateb i ymddygiad
6. helpu plant a phobl ifanc i bontio sefyllfaoedd
7. gweithio gydag asiantaethau eraill

**Staff** *(o leiaf 3 allan o 4)*

1. rydych chi'n gweithio gyda nhw
2. rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw
3. cyflogedig a / neu ddigyflog
4. myfyrwr a / neu dan hyfforddiant

**Cwmpas/Ystod  
cysylltiedig â  
gwybodaeth a  
dealltwriaeth**

**Hawliau**

1. mewn perthynas â chwarae a gweithgareddau cymdeithasol
2. mewn perthynas â gofal a diogelwch
3. mewn perthynas â lles emosiynol
4. mewn perthynas â chynhwysiant
5. mewn perthynas â chydabod hunaniaeth
6. mewn perthynas â gwybodaeth

**Polisïau a gweithdrefnau**

1. chwarae a gweithgareddau cymdeithasol
2. gweithio mewn ffordd gynhwysol sydd ddim yn gwahaniaethu
3. amddiffyn plant a bwlio
4. iechyd a diogelwch
5. ymateb i ymddygiad
6. helpu plant a phobl ifanc i bontio sefyllfaoedd
7. gweithio gydag asiantaethau eraill

**Staff**

1. rydych chi'n gweithio gyda nhw
2. rydych chi'n gyfrifol amdany'n nhw
3. cyflogedig a / neu ddigyflog
4. myfyrwyr a / neu dan hyfforddiant

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

### Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chwarae a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfoll a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.
4. Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.
5. Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.
6. Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.



7. Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae a hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.

8. Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae. Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwysu'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu'r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwyllo'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

---

## Geirfa

### **Man chwarae**

Man chwarae sy'n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn faterol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â'r byd seibr.

### **Lleoliad gwaith chwarae**

Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

<b>Datblygwyd gan</b>	SkillsActive
<b>Fersiwn rhif</b>	2
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	Chwefror 2016
<b>Indicative Review Date</b>	Ebrill 2021
<b>Dilysrwydd</b>	ArHynOBryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	SkillsActive
<b>RCU gwreiddiol</b>	SKABB226
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus; Lles a Datblygiad Plentyn; Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd; Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol
<b>Cyfes/Set</b>	Gwaith Chwarae
<b>Geiriau Allweddol</b>	cyfrannu; datblygu; adolygu; polisïau a gweithdrefnau; hawliau; plant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â hyrwyddo'r gwaith sy'n digwydd yn eich lleoliad gwaith chwarae a'i werth i'r gymuned drwy, er enghraifft, fynd i gyfarfodydd rhwydwaith ac allanol allai fod o fudd i'ch gwaith a'ch gyrfa yn y dyfodol.

### **Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. trafod eich lleoliad gwaith chwarae gydag eraill
2. hyrwyddo gwasanaethau yn eich lleoliad gwaith chwarae

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae ac sy'n gyfrifol yn bennaf am roi cyfleoedd i blant chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Mae'r safon ar gyfer staff nad ydyn nhw'n llwyr gyfrifol am y lleoliad gwaith chwarae ond sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gefnogi chwarae.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

### Trafod eich lleoliad gwaith chwarae gydag eraill

1. adnabod cyfleoedd i hyrwyddo'ch maes gwaith a'ch lleoliad gwaith chwarae i **eraill**
2. trafod eich cynnig gyda'ch cydweithiwr cyfrifol
3. egluro a / neu hyrwyddo'ch lleoliad gwaith chwarae i **eraill**
4. sôn wrth **eraill** am eich lleoliad gwaith chwarae, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'ch sefydliad
5. egluro wrth **eraill** sut mae gwaith eich lleoliad chwarae o fudd i'r gymuned
6. cael adborth gan **eraill** ynglŷn â'u barn nhw am eich lleoliad gwaith chwarae a'r **gwasanaethau** rydych chi'n eu cynnig, a rhannu hyn gyda'ch cydweithiwr cyfrifol

### Hyrwyddo gwasanaethau yn eich lleoliad gwaith chwarae

7. awgrymu syniadau ynglŷn â deunydd hyrwyddo i'ch cydweithiwr cyfrifol sy'n gyson gyda'r grwpiau targed y cytunwyd arnyn nhw, yr adnoddau sydd ar gael a'r gofynion cyfreithiol
8. cyfrannu at ddatblygu **ffyrdd realistig** o hyrwyddo gwasanaethau eich lleoliad gwaith chwarae, mewn cytundeb gyda'ch cydweithiwr cyfrifol
9. trafod ffyrdd posib o wella **gwasanaethau** gyda'r bobl berthnasol yn eich lleoliad gwaith chwarae
10. datblygu **cynllun** i hyrwyddo gwasanaethau gydag **eraill** a'ch cydweithiwr cyfrifol
11. rhoi'r **dulliau hyrwyddo** ar waith
12. casglu a gwerthuso'r canfyddiadau i farnu pa mor effeithiol oedd yr hyrwyddo
13. rhoi gwybod i'ch cydweithiwr cyfrifol am eich gwerthusiad a chytuno ar unrhyw argymhellion neu newidiadau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod* **Trafod eich lleoliad gwaith chwarae gydag eraill a deall:**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi
2. yr **agweddau o'ch gwaith a'r lleoliad gwaith chwarae** mae modd eu hyrwyddo
3. ffyrdd o hyrwyddo'r gwaith mae eich lleoliad gwaith chwarae yn ei wneud i **eraill** mewn ffordd sy'n cwrdd â'u hanghenion
4. sut mae modd i **eraill** gefnogi eich lleoliad gwaith chwarae
5. sut mae gwaith eich lleoliad gwaith chwarae o fudd i **eraill** a'r gymuned
6. ffyrdd o gael adborth gan **eraill** ynghylch eu barn ynglŷn â'ch lleoliad gwaith chwarae
7. sut i gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion y bobl hynny rydych chi'n cyfathrebu â nhw
8. pwysigrwydd hysbysu eich cydweithiwr cyfrifol am eich gweithgareddau gydag **eraill**

### Cyfrannu at hyrwyddo gwasanaethau yn eich lleoliad gwaith chwarae

9. sut i ddatblygu **deunyddiau hyrwyddo** ar gyfer eich lleoliad gwaith chwarae
10. pwysigrwydd ceisio gwella **gwasanaethau'n** barhaus
11. sut i ddatblygu dulliau gwerthuso ac adnabod meini prawf priodol
12. pwysigrwydd gwerthuso yn unol â'r **cynllun** cytunedig
13. sut i gasglu, dadansoddi ac adrodd yn ôl ar eich gwerthusiad
14. trefniadau'ch mudiad o ran awgrymu sut i wella **gwasanaethau**
15. sut i ddatblygu awgrymiadau ar gyfer **gwasanaethau** yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd a'r gwaith ymchwil a wnaed
16. sut i gyfleu a chyflwyno'r awgrymiadau hyn
17. sut i ystyried anghenion gwahanol grwpiau o bobl wrth ddatblygu deunydd hyrwyddo
18. sut i ddatblygu deunydd hyrwyddo sy'n briodol i'r dulliau hyn

19. pwysigrwydd cynhyrchu deunyddiau a gweithio mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r polisiau a'r gweithdrefnau mae eich sefydliad wedi cytuno arnyn nhw
20. sut i gyflwyno gwybodaeth, gan ddefnyddio sawl **ffordd wahanol o gyfathrebu**
21. eich cydweithiwr cyfrifol, sef yr un y dylech chi drafod a chytuno ar y **cynllun** hyrwyddo gydag o / hi er mwyn gwella **gwasanaethau**

**Cwmpas/Ystod  
cysylltiedig â meini  
prawf perfformiad**

**Erail** (*isafswm o 5 allan o 8*)

1. gweithwyr proffesiynol allanol
2. staff
3. plant a phobl ifanc
4. plant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan
5. rhieni a / neu ofalwyr
6. mudiadau
7. gweithwyr proffesiynol mewn disgyblaethau eraill
8. unigolion yn y gymuned

**Gwasanaethau**

1. sy'n bodoli'n barod
2. newydd

**Dulliau Hyrwyddo (PC7 & PC8)**

1. dosbarthu taflenni
2. y cyfryngau cymdeithasol
3. ymweliadau
4. digwyddiadau
5. cynlluniau annog

**Pobl eraill perthnasol**

1. pobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau eisoes
2. pobl newydd posib allai ddefnyddio'ch gwasanaethau
3. defnyddwyr sy'n wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan
4. cydweithwyr



**Cwmpas/Ystod  
cysylltiedig â  
gwybodaeth a  
dealltwriaeth****Agweddau o'ch gwaith ac o'r lleoliad gwaith chwarae**

1. chwarae
2. gwaith chwarae
3. ymdeimlad
4. gwasanaethau
5. cyfleoedd
6. digwyddiadau
7. ymgyrchoedd
8. cysylltiadau gyda mudiadau eraill
9. cyfrifoldebau
10. llwyddiannau
11. cyd-destun

**Erail**

1. gweithwyr proffesiynol allanol
2. staff
3. plant a phobl ifanc
4. plant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan
5. rhieni a / neu ofalwyr
6. mudiadau
7. gweithwyr proffesiynol mewn disgyblaethau eraill
8. unigolion yn y gymuned

**Dulliau Hyrwyddo**

1. dosbarthu taflenni
2. y cyfryngau cymdeithasol
3. ymweliadau
4. digwyddiadau
5. cynlluniau annog

**Gwasanaethau**

1. sy'n bodoli'n barod
2. newydd

**Cynllun**

1. adnoddau
2. amserlenni
3. ffyrdd o ddsbarthu
4. cod hyrwyddo, ar gyfer cofnodi
5. dyddiad terfynu'r hyrwyddo

### **Dulliau cyfathrebu**

#### *Dulliau*

1. rhyngpersonol
2. ffyrdd unigol
3. cynhwysol
4. ffurfiol
5. anffurfiol
6. cyfarfodydd
7. digwyddiadau

#### *Cyfrwng*

1. deunydd wedi ei argraffu
2. gweledol
3. tele-gyfathrebu
4. cyfathrebu electronig neu dros y we

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

### Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chwarae a manau i chwarae ynddyn nhw.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfoll a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.
4. Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.
5. Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.
6. Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.

7. Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae ac hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.

8. Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae. Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwysu'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu'r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwyllo'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

---

## Geirfa

### **Man chwarae**

Man chwarae sy'n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn gorfforol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â'r byd seibr.

### **Lleoliad gwaith chwarae**

Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

### **Staff**

Y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, y bobl rydych chi'n gyfrifol amdany'n nhw, gweithwyr cyflog neu wirfoddol, myfyrwyr neu o dan hyfforddiant.

<b>Datblygwyd gan</b>	SkillsActive
<b>Fersiwn rhif</b>	2
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	Chwefror 2016
<b>Indicative Review Date</b>	Ebrill 2021
<b>Dilysrwydd</b>	ArHynOBryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	SkillsActive
<b>RCU gwreiddiol</b>	SKAB227
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus; Lles a Datblygiad Plentyn; Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd; Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol
<b>Cyfres/Set</b>	Gwaith Chwarae
<b>Geiriau Allweddol</b>	Cyfrannu; hyrwyddo; gwaith chwarae; lleoliad gwaith chwarae; cymuned

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â chyfrannu at weithredu a chynnal gweithdrefnau yn ymwneud â materion diogelwch ac achosion posib o fwlio yn eich lleoliad gwaith chwarae.

### **Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. cyfrannu at a dilyn gweithdrefnau i ddiogelu plant a phobl ifanc
2. cyfrannu at weithredu polisiau a gweithdrefnau i ymateb i achosion posib o fwlio

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae ac sy'n gyfrifol yn bennaf am roi cyfleoedd i blant chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Mae'r safon ar gyfer staff sydd â pheth cyfrifoldeb dros y lleoliad gwaith chwarae ac eraill, ac sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gefnogi chwarae.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu.**

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

### **Cyfrannu at a dilyn gweithdrefnau i ddiogelu plant a phobl ifanc**

1. dilyn gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a sefydliadol cyfredol i warchod plant a / neu bobl ifanc rhag cael eu **cam-drin**, fel sy'n berthnasol i'ch swyddogaeth
2. cymryd rhan mewn hyfforddiant er mwyn rhoi'r gweithdrefnau diogelu ar waith
3. rhoi cefnogaeth i blant a / neu bobl ifanc o ran sut i gadw eu hunain yn ddiogel rhag cael eu **cam-drin**
4. cefnogi plant a / neu bobl ifanc gyda'u hawliau
5. rhoi arweiniad i blant a / neu bobl ifanc o ran beth y gallan nhw ei wneud os ydyn nhw'n cael eu **cam-drin**

### **Cyfrannu at weithredu polisiau a gweithdrefnau i ymateb i achosion posib o fwlio**

6. cyfrannu at weithredu polisi gwrth-fwlio eich sefydliad
7. dilyn polisi a gweithdrefnau gwrth-fwlio eich sefydliad os oes angen hysbysu rhywun am arwyddion posib o fwlio
8. rhoi cefnogaeth i blant a phobl ifanc o ran cadw eu hunain yn ddiogel rhag cael eu bwlio



## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod* **Cyfrannu at a dilyn gweithdrefnau i ddiogelu plant a phobl ifanc a deall:**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi
2. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau eich hunain o ran amddiffyn plant a phobl ifanc
3. gweithdrefnau diogelu eich sefydliad o ran amddiffyn plant a / neu bobl ifanc rhag cael eu **cam-drin**
4. y gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol presennol o ran diogelu, ble i ddod o hyd iddyn nhw a phwysigrwydd sicrhau eich bod yn gyfarwydd â nhw yn eich gwaith
5. ffynonellau gwybodaeth ynghylch yr arferion gorau o ran diogelu
6. pwysigrwydd adnabod, datgelu a chofnodi pryderon sydd gennych chi fod plentyn neu berson ifanc yn cael ei **gam-drin**
7. pwysigrwydd hyfforddiant cyfredol a pherthnasol
8. sut i adnabod ac ymateb i symptomau o gamdriniaeth ac esgeulustod yn unol â gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a sefydliadol cyfredol
9. y mathau o wybodaeth y gall fod ei hangen ar blant a / neu bobl ifanc ynglŷn â sut i ddiogelu eu hunain rhag cael eu **cam-drin**, a ble i ddod o hyd i'r wybodaeth honno
10. ffyrdd o roi gwybodaeth i blant a / neu bobl ifanc ynghylch eu hawliau, a phwysigrwydd gwneud hyn
11. pwysigrwydd hyrwyddo hunan-hyder a gwytnwch mewn plant a / neu bobl ifanc
12. y ffactorau allai wneud rhai plant a / neu bobl ifanc yn fwy agored i gael eu **cam-drin** a phwysigrwydd bod yn ymwybodol o hyn
13. sut i roi arweiniad a chefnogaeth i blant o ran yr hyn y dylent ei wneud os ydyn nhw'n cael eu **cam-drin**

## Cyfrannu at weithredu polisiau a gweithdrefnau i ymateb i

---

### achosion posib o fwlio

14. polisiau a gweithdrefnau gwrth fwlio eich sefydliad a pham bod y rhain yn bwysig
15. **mathau** o fwlio
16. sut i adnabod ac ymateb i bryderon ynghylch bwlio yn unol â pholisiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio eich sefydliad
17. y trefniadau o ran adrodd a chofnodi gwybodaeth ynghylch bwlio
18. pam y gall fod angen cymorth arnoch chi – pa fath, ymhle a chan bwy

**Cwmpas/Ystod  
cysylltiedig â meini  
prawf perfformiad**

**Camdriniaeth**

1. corffor
2. esgeulustod
3. emosiynol
4. rhywiol
5. bwlio

**Erail** (*o leiaf 3 allan o 5*)

1. gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal plant
2. staff
3. uwch-reolwyr
4. gweithwyr proffesiynol allweddol sy'n gweithio gyda phlant a / neu bobl ifanc unigol
5. asiantaethau cyfeirio

**Cwmpas/Ystod  
cysylltiedig â  
gwybodaeth a  
dealltwriaeth**

**Camdriniaeth**

1. corfforol
2. esgeulustod
3. emosiynol
4. rhywiol
5. bwlio

**Mathau**

1. emosiynol
2. corfforol
3. seibr

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

## Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chwarae a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1. Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfoll a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.
2. Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
3. Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.
4. Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.
5. Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.
6. Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn

chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.

7. Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae a hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.

8. Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae. Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwysu'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu'r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwyllo'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

## Geirfa

### **Man chwarae**

Man chwarae sy'n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn faterol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â'r byd seibr.

### **Lleoliad gwaith chwarae**

Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio.

### **Staff**

Y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, y bobl rydych chi'n gyfrifol amdanyh nhw, gweithwyr cyflog neu wirfoddol, myfyrwyr neu o dan hyfforddiant.

<b>Datblygwyd gan</b>	SkillsActive
<b>Fersiwn rhif</b>	1
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	Chwefror 2016
<b>Indicative Review Date</b>	Ebrill 2021
<b>Dilysrwydd</b>	ArHynOBryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	SkillsActive
<b>RCU gwreiddiol</b>	Newydd
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus; Lles a Datblygiad Plentyn; Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd; Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol
<b>Cyfres/Set</b>	Gwaith Chwarae
<b>Geiriau Allweddol</b>	cyfrannu; gweithredu; diogelu; camdriniaeth; lleoliad gwaith chwarae; gwaith chwarae; plant a phobl ifanc